Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **28 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Rhestr o Reoliadau'r UE sy'n cael eu diwygio

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2017/880
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/12
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2018/782
- Rheoliad (EC) Rhif 470/2009
- Rheoliad (EC) Rhif 37/2010

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Diogelwch Bwyd. Mae swyddogaethau mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 470/2009, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/12 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2018/782 wedi eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

**Diben y diwygiadau**
Mae Rheoliadau 2018 (y weithdrefn negyddol) yn sicrhau y bydd y fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yn parhau i weithio'n effeithiol unwaith y byddwn yn ymadael â'r UE, ac y gallwn barhau i weithredu rhaglen cadw gwyliadwriaeth am weddillion a fydd yn cyflawni'r un amcanion. Mae angen y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan yr offeryn er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'r ddeddfwriaeth ddomestig sy'n ei gorfodi yn parhau i weithio'n effeithiol.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy’n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-veterinary-medicines-and-animals-and-animal-products-examination-of-residues-and-maximum-residues-limits-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.